# Y Pwyllgor Materion Ewropeaidd ac Allanol

## EUR(2) 02-06 (p.1)

| | |
|---|---|
| **Dyddiad:** | **9 Mawrth 2006** |
| **Amser:** | **09.00 – 12.00** |
| **Lleoliad:** | **Committee Room 3, Senedd, Bae Caerdydd** |
| **Teitl:** | **Adroddiad y Gweinidog** |

**Pwrpas**

1. Darparu’r wybodaeth ddiweddaraf am amrywiaeth o faterion sydd wedi codi ers cyfarfod diwethaf y Pwyllgor.

**Argymhelliad**

2.Bod yr aelodau yn nodi cynnwys yr adroddiad.

**Cefndir**

3. Cyfarfu’r Pwyllgor ddiwethaf ar 18 Ionawr 2006. Mae’r papur hwn yn darparu diweddariad.

**Gweithgareddau Rhyngwladol Prif Weinidog Cymru**

- 26 Ionawr 2006 Ymweliad Ei Ardderchogrwydd Zvi Heifetz, Llysgennad Israel i’r Deyrnas Unedig

Ynghyd â’r Gweinidog dros yr Amgylchedd, Cynllunio a Chefn Gwlad, cyfarfûm â’i Ardderchogrwydd Zvi Heifetz, Llysgennad Israel i’r Deyrnas Unedig, a oedd yng Nghaerdydd i fynychu Gwasanaeth Cofio’r Holocost yng Nghanolfan Mileniwm Cymru. Rhoddodd y cyfarfod gyfle i ni godi proffil Cymru, a gwrando ar safbwyntiau’r Llysgennad am amryw o faterion, yn cynnwys yr etholiadau a gynhaliwyd ym Mhalestina'r diwrnod blaenorol.

- 27 Chwefror 2006 Derbyniad Dydd Gwyl Dewi ym Mrwsel

Cynheliais dderbyniad ym Mrwsel i nodi Dydd Gwyl Dewi. Fe’i mynychwyd gan Lysgenhadon yr Undeb Ewropeaidd, Cynrychiolwyr Parhaol, aelodau’r Pwyllgor, cydweithwyr o sefydliadau’r Undeb Ewropeaidd, cynrychiolwyr rhanbarthol a chyfeillion Cymru. Roedd y Derbyniad yn arddangos cynnyrch o Gymru gyda chefnogaeth Gwir Flas Cymru, ac yn gyfle i hyrwyddo cais y Deyrnas Unedig ar gyfer y Galileo Supervisory Agency a groesewir i ddinas Caerdydd.

- 28 Chwefror 2006 Cinio ar noswyl Dydd Gwyl Dewi, ac agoriad swyddogol siambr drafod newydd y Cynulliad

Cynheliais ginio yn Stadiwm y Mileniwm, ar noswyl Dydd Gwyl Dewi, ac agoriad siambr drafod newydd y Cynulliad. Roedd yn gyfle i godi proffil Cymru a mynychodd 250 o westeion yn cynnwys aelodau o’r Corfflu Diplomyddol Tramor, Is-genhadon Anrhydeddus, a Llefarwyr o amrywiol Seneddau o bob cwr o’r byd.

- 1 Mawrth 2006 Ymweliad Dr Michael Refalo, Uwch Gomisiynydd Malta

Cefais gyfarfod gyda Dr Michael Refalo, Uwch Gomisiynydd Malta, a oedd yn ymweld â Chymru fel rhan o ddathliadau Dydd Gwyl Dewi. Roedd yn gyfle i drafod cysylltiadau dwyochrog gyda Malta mewn perthynas â materion sydd o fudd ac o fantais i’r ddwy ochr.

- 1 Mawrth 2006 Ymweliad Ei Ardderchogrwydd, Mr Yury Fedotov, Llysgennad Rwsia

Cefais gyfarfod gyda’i Ardderchogrwydd, Mr Yury Fedotov, Llysgennad newydd Rwsia i’r Deyrnas Unedig yn ystod ei ymweliad â Chymru. Roedd yr ymweliad yn gyfle i drafod materion yn ymwneud â masnach a buddsoddi sy’n berthnasol i’n dwy wlad, yn enwedig o gofio fod taith fasnach wedi’i threfnu i Rwsia ym Medi 2006.

- 1 Mawrth 2006 Ymweliad Ms Sarmite Elerte, Prif Olygydd papur newydd dyddiol Latfia, "Diena"

Cefais gyfarfod gyda Ms Sarmite Elerte, Prif Olygydd papur newydd dyddiol Latfia, "Diena". Roedd yr ymweliad yn gyfle i Ms Elerte ddysgu am Gymru, i drafod rôl Cymru yn yr Undeb Ewropeaidd, a’r Memorandwm o Ddealltwriaeth rhwng Cymru a Latfia.

- 3 – 6 Mawrth 2006 Taith fasnach i Hong Kong a Chongqing, Tsieina

Cymerais ran yn nhaith fasnach MasnachCymru Rhyngwladol i Hong Kong. Mynychais Sioe Arddangos Cymru yn Hong Kong, ac ymwelais â chyfleuster golff mwyaf y byd yn Mission Hills, Shenzhen sydd â chytundeb marchnata cyfatebol cyfyngedig gyda Gwesty’r Celtic Manor. Cynheliais gyfres o

gyfarfodydd busnes a gwleidyddol yn Hong Kong. Ymwelais hefyd â Chongqing i fynychu cyfarfodydd gyda'r Llywodraeth Fwrdeistrefol a llofnodais Femorandwm o Ddealltwriaeth gyda bwrdeistref Chongqing yn hyrwyddo cydweithredu mewn amryw o feysydd.

Materion Eraill

- Senedd Ewrop yn mabwysiadu barn yn dilyn y darlleniad cyntaf o'r Gyfarwyddeb Gwasanaethau – mae Senedd Ewrop wedi mabwysiadu ei barn yn dilyn y darlleniad cyntaf o'r Gyfarwyddeb Gwasanaethau. Fel y disgwylid, mae'n cynnwys cyfaddawdau ar gwestiynau allweddol yn ymwneud â chwmpas a symudiad rhydd gwasanaethau (a arferai gael ei adnabod fel egwyddor gwlad y tarddiad).

Gyda golwg ar gwmpas y cynigion, eithriwyd y sectorau canlynol:- llafur, cyfraith ryngwladol droseddol a phreifat, gwasanaethau clyweled, asiantaethau cyflogaeth, gamblo, gwasanaethau iechyd, gwasanaethau cyfreithiol a notarïaid, gwasanaethau diogelwch, gwasanaethau cymdeithasol, a threthi.

Ond gwrthodwyd eithriadau pellach ar gyfer y canlynol:- pob gwasanaeth o fudd economaidd cyffredinol per se, hysbysebu, gwasanaethau diwylliannol, gwasanaethau ynni, gwasanaethau postio, addysg breifat, a dwr.

Mewn perthynas â symudiad rhydd gwasanaethau, mae'r cyfaddawdau y cytunwyd arnynt yn gwahardd Aelod-Wladwriaethau rhag gosod rhwystrau rhag symudiad rhydd gwasanaethau ond, ar yr un pryd, yn pennu dan ba amodau y gallai'r Aelod-Wladwriaethau gyfyngu ar y rhyddid hwn trwy reolau cenedlaethol. Yr amodau hyn yw polisi cyhoeddus, diogelwch y cyhoedd, amddiffyn yr amgylchedd ac iechyd y cyhoedd.

Yn awr bydd Cyngor y Gweinidogion, fel corff sy'n deddfu ar y cyd â'r Senedd, yn penderfynu ar ei farn ynglyn â'r gyfarwyddeb. Os bydd holl ddiwygiadau'r Senedd yn dderbyniol i'r Cyngor, caiff y ddeddfwriaeth ei mabwysiadu ar ei ffurf ddiwygiedig. Os bydd y Cyngor yn gwrthod unrhyw un o ddiwygiadau'r Senedd neu'n ychwanegu rhai ei hun, bydd y testun yn dychwelyd gerbron y Senedd ar gyfer ail ddarlleniad.

Mae'n bosibl y gall y gyfarwyddeb gael ei phasio'n derfynol eleni, ond byddai'n cymryd dwy flynedd yn ychwanegol eto i'r Aelod-Wladwriaethau ei throsi'n Gyfraith Genedlaethol.

## Pwyntiau Gweithredu yn Codi o Gyfarfodydd Blaenorol: Atodiadau

- Yn ei gyfarfod ar 14 Ebrill 2005 gofynnodd y Pwyllgor am nodyn ar ganlyniad cyfarfod y Gweinidogion gyda Sefydliad Masnach y Byd yn Hong Kong, a gynhaliwyd yn Rhagfyr 2005. Mae hwn ynghlwm yn Atodiad A.
- Yng nghyfarfod y Pwyllgor a gynhaliwyd ar 18 Ionawr 2006, wedi i'r Pwyllgor drafod y mater yn flaenorol ar 22 Medi 2005, cytunwyd i ddarparu nodyn i'r Pwyllgor ynglyn â'r broses

ymgynghori ar gyfer pennu maint yr ardal ar gyfer Cronfeydd Strwythurol. Mae hwn ynghlwm yn Atodiad B.

## Newyddion Ewropeaidd

- Y Ffindir yn ailethol Halonen o drwch blewyn - enillodd Tarja Halonen ail dymor chwe blwyddyn yn etholiad arlywyddol terfynol Y Ffindir, a hynny o drwch blewyn. Llwyddodd yr Arlywydd Halonen, y ddynes gyntaf i arwain y wlad, i guro her y Ceidwadwr Sauli Niinisto gyda 51.8% o'r bleidlais, ar ôl methu ag ennill mwyafrif clir yn y rownd gyntaf.
- Yr Undeb Ewropeaidd ar yr agenda ar gyfer cennad newydd Bosnia – dywedodd prif gennad rhyngwladol newydd Bosnia-Hercegovina mai ei brif flaenoriaeth yw dod â'r wlad yn ôl ar drywydd aelodaeth o'r Undeb Ewropeaidd. Mae hyrwyddo ymgais Bosnia i ymuno â Nato hefyd yn flaenoriaeth iddo. Daeth Christian Schwarz-Schilling i'r swydd yn Sarajevo ar 2 Chwefror 2006. Mae'n olynu'r gwleidydd o Brydain yr Arglwydd Ashdown, a dreuliodd bron i bedair blynedd yn goruchwylio'r broses heddwch ac yn gweithredu diwygiadau gwleidyddol.
- Cyfraith yr Undeb Ewropeaidd ar yrwyr lorïau - mae Senedd Ewrop wedi cymeradwyo cyfraith i leihau nifer yr oriau y bydd gyrwyr bysiau moethus a lorïau yn eu treulio y tu ôl i'r llyw. Bydd yn ofynnol i yrwyr bysiau moethus gymryd egwyl ar ôl chwe diwrnod ar y ffordd, yn hytrach na'r uchafswm presennol o 12. Ni chânt yrru am fwy na naw awr y dydd, 56 awr yr wythnos neu 90 awr bob pythefnos. Rhaid iddynt gael seibiant di-dor o 11 awr y dydd o leiaf - neu un cyfnod o naw awr ac un arall o dair awr - a rhaid iddynt orffwys am o leiaf 45 munud bob 4.5 awr. O 1 Mai, caiff tacograffau digidol eu gosod ar gerbydau newydd, a fydd yn gywirach ac yn anoddach i'w hystumio. Yn ogystal â hynny, o 2008 bydd gyrwyr yn destun archwiliadau mwy mynych. Disgwylir cymeradwyaeth derfynol gan lywodraethau'r Undeb Ewropeaidd.
- Ymgais yr Undeb Ewropeaidd i nesáu at ei dinasyddion –mae'r Comisiwn Ewropeaidd wedi datgelu strategaeth gyfathrebu i godi proffil yr Undeb Ewropeaidd a gwella ei delwedd. Mae'r Papur Gwyn yn galw ar aelod-wladwriaethau ac awdurdodau lleol i helpu i gau'r bwlch gyda dinasyddion, ac yn dweud y bydd yr Undeb Ewropeaidd yn dechrau gwrando fwy ar y cyhoedd. Gofynnir i aelodau'r cyhoedd helpu i lunio darpar Siarter neu God Ymddygiad Ewropeaidd ar Gyfathrebu drwy anfon eu barn i wefan arbennig ar y Papur Gwyn.
- Yr Undeb Ewropeaidd yn parhau i ariannu Awdurdod Palestina - dywedodd yr Undeb Ewropeaidd y bydd yn parhau i ariannu Awdurdod Palestina, ar yr amod bod ei lywodraeth newydd wedi ymrwymo i sicrhau heddwch gydag Israel. Yn 2005, cyfrannodd aelod-wladwriaethau'r Undeb Ewropeaidd rhyw £341 miliwn i bobl Palestina. Mae hyn rhyw draean yn fwy na'r Unol Daleithiau.
- Dyfarniad Sefydliad Masnach y Byd ar fewnforio bwydydd GM i'r Undeb Ewropeaidd - mae Sefydliad Masnach y Byd wedi dyfarnu, mewn penderfyniad rhagarweiniol, fod yr Undeb Ewropeaidd wedi gwahardd mewnforio organebau wedi'u haddasu'n enetig (GMO) o'r Unol Daleithiau yn anghyfreithlon. Roedd moratoriwm yr Undeb Ewropeaidd mewn grym o 1998 hyd 2004, ac fe'i defnyddiwyd i ganiatáu iddi gasglu data i ddarganfod y ffordd orau o ddiweddaru'r rheolau ar GMO. Disgwylir dyfarniad terfynol yn ddiweddarach eleni.
- Yr Undeb Ewropeaidd yn galw am chwalu rhwystrau llafur – y mis diwethaf cyhoeddodd y Comisiwn Ewropeaidd adroddiad yn dweud fod y gweithwyr newydd o wladwriaethau a

ymunodd â’r Undeb Ewropeaidd yn 2004 wedi hybu tyfiant heb gynyddu diweithdra. Dyma rai o’r pwyntiau a wnaed yn yr adroddiad: bod gweithwyr newydd yn llenwi bylchau mewn marchnadoedd llafur, yn enwedig adeiladu ac arlwyo; na fu’r llif gweithwyr yn ddigon mawr i lethu marchnadoedd llafur ac efallai y bydd cyfyngiadau yn arwain at ymfudwyr yn gwneud mwy o "waith heb ei ddatgan". Cyfyngodd y rhan fwyaf o’r aelod-wladwriaethau hyn ar fynediad i’w marchnadoedd llafur, ac eithrio’r Deyrnas Unedig, Iwerddon a Sweden. Erbyn 2011, bydd yn rhaid i bob rhwystr llafur rhwng Gorllewin a Dwyrain Ewrop fynd, gan mai rhyddid i bobl symud o gwmpas yw un o gonglfeini’r Undeb Ewropeaidd. Er bod disgwyl i’r Ffindir a Sbaen ddiddymu rhwystrau llafur eleni a bod eraill, yn cynnwys yr Iseldiroedd, yn ystyried agor rhai sectorau, mae eraill, yn enwedig yr Almaen ac Awstria, wedi dweud y byddant yn cynyddu’r cyfyngiadau ar weithwyr o’r aelod-wladwriaethau newydd.

- Yr Undeb Ewropeaidd yn cymryd mesurau llym yn erbyn y sector ynni - mae diwydiannau nwy ac ynni Ewrop yn wynebu mesurau llym i atal ymddygiad gwrth-gystadleuol yng ngoleuni darganfyddiadau cychwynnol adroddiad gan y Comisiwn Ewropeaidd ar y sector ynni. Mae’r adroddiad yn dilyn ymchwiliad, a gychwynnodd yr haf diwethaf, i edrych a oedd cwmnïau ynni ar y cyfandir wedi cydgynllwynio i gadw prisiau yn uchel. Bydd amryw o gwmnïau yn wynebu ymchwiliadau ar wahân yn awr.

**Rhodri Morgan AC**

**Prif Weinidog Cymru**

## EEAC First Minister's Report

| Date | Assembly Minister/ Official/ Division | Event | Objectives | Outcomes |
|---|---|---|---|---|
| 26 January 2006 | First Minister and<br><br>Minister for Environment, Planning & Countryside | Meeting with His Excellency, Zvi Heifetz, the Israeli Ambassador to the UK. | Courtesy call on the First Minister & the Minister for the Environment, Planning & Countryside as the Ambassador was in Cardiff to attend the Holocaust Memorial Service at the Wales Millennium Centre. | The Ambassador was received by both Ministers which gave them an opportunity to raise the profile of Wales and to listen to the Ambassador’s views on the Palestinian elections which had taken place the previous day. |

| | | | | |
|---|---|---|---|---|
| 2-3 February 2006 | Minister for Education and Lifelong Learning<br><br>and John Howells | 4 Motors Regions and Wales Research and Higher Education, Barcelona | For 4 Motors Regions and Wales:<br><br>To consider opportunities to use the Commission for Higher Education Research (CHER) network, to react to and influence wider European and global agenda for Higher Education.<br><br>To identify specific issues to push forward jointly. | The meeting was an opportunity to consider the role that Four Motors can play in support of the wider Euro agenda for Higher Education (Bologna and Lisbon) and to identify specific initiatives to push forward under the Four Motors banner. The<br><br>Four Motors reaffirmed their commitment to working with Welsh Higher Education Institutes in all of these areas.<br><br>Agreed to establish research colloquia for young researchers.<br><br>Catalunya to organise a research conference on photonics (interest in all regions) |
| 9 February 2006 | Minister for Economic Development and Transport | British Irish Council meeting | To participate in a British-Irish Council Transport Ministers meeting. | British-Irish Council Transport Ministers reviewed progress on the Transport Sectoral Group's work programme, including the bilateral agreement between the UK and Irish Governments on the mutual recognition of driving disqualifications. They also agreed the Group's future work programme, which will take forward work on |

| | | | | |
|---|---|---|---|---|
| | | | | road safety, accessible transport and the promotion of sustainable transport. |
| 19 – 24 February 2006 | Minister for Economic Development and Transport | Visit to Toronto and Chicago | To undertake engagements in conjunction with Visit Britain, organised with WTB.<br><br>Meet with Sir Terry Matthews<br><br>Visit Hydrogen Village, site visits with partner organisations<br><br>Host business reception at Consul General's residence with key business partners.<br><br>To develop relationship between Michigan and Wales in Telematics/Intelligent Traffic Systems<br><br>Dinner for key players in Detroit,<br><br>Meet with Governor of Michigan. | |
| 27 February 2006 | First Minister | St, David's Day Reception, Brussels | Reception hosted by the First Minister and attended by EU Ambassadors, Permanent Representatives, Committee members, colleagues from EU institutions, regional representatives and friends of Wales. | The Reception showcased Welsh produce with the support of True Taste Wales, and it was an opportunity to promote the UK bid for the Galileo Supervisory Agency with Cardiff as the host city. |

| | | | | |
|---|---|---|---|---|
| 28 February 2006 | First Minister, Cabinet Ministers and all AM’s | Dinner hosted by the First Minister | Dinner hosted by the First Minister on the eve of St David’s Day and the state opening of the new Assembly debating chamber. Opportunity to raise the profile of Wales to an international audience. | Profile of Wales raised with the attendance of 250 guests including members of the Foreign Diplomatic Corps, Honorary Consuls, Speakers from various Parliaments around the world, and representatives of Welsh organisations. |
| 1 March 2006 | First Minister | Meeting with Dr Michael Refalo, the High Commissioner to Malta, | Courtesy visit by the High Commissioner as part of the St. David’s Day celebrations. An opportunity to develop bilateral links with Malta across areas of mutual interest and mutual benefit. | |
| 1 March 2006 | First Minister | Meeting with His Excellency Mr Yury Fedotov, Ambassador to Russia. | An opportunity to discuss trade and investment between both countries, particularly in view of a planned trade visit to Russia in September 2006 | |
| 1 March 2006 | First Minister | Visit of Ms Sarmite Elerte, Editor in Chief of Latvia’s daily newspaper, "Diena" | An opportunity for Ms Elerte to learn about Wales and discuss how a devolved government works as well as Wales’ role in the EU. | |

| | | | | |
|---|---|---|---|---|
| 2 – 6 March 2006 | Minister for Culture, Welsh Language and Sport | Wales Week 2006, New York | The Minister's attendance at the Wales Week 2006 events, will significantly raise the profile of the events. He will also see the efforts being made by the Wales International Centre in New York, to raise the profile of Wales. | |
| 3 – 6 March 2006 | First Minister, Wales Trade International and European and External Affairs Division | Trade Mission to Hong Kong and Chongqing, China | Attendance at the Showcase of Wales event in Hong Kong, together a visit to the world's largest golf facility at Mission Hills, Shenzhen which has an exclusive reciprocal marketing agreement with the Celtic Manor Resort.<br><br>A series of business and political engagements were held in both Hong Kong and Chongqing, and a memorandum of understanding was signed with the municipality of Chongqing. | |
| 7 March 2006 | Minister for Education and Lifelong Learning | Meeting with Mohlabi Kenneth Tsekoa, Education Minister for Lesotho | The meeting and lunch will be an opportunity to discuss education links with Lesotho, particularly the operation of the teacher placement programme and to assess the benefits for Lesotho and for Welsh teachers, in terms of experience and personal development.<br><br>The Minister is also keen to learn about technical and vocational education in | |

| | | | | |
|---|---|---|---|---|
| | | | Wales, policies for relating education to the world of work and to discuss possible co-operation in these areas. He will also meet Dolen/ Cymru, the organisation responsible for promoting links between Lesotho and Wales. | |

### Action Point from EEAC meeting 14 April 2005

### WTO Ministerial Meeting - Hong Kong

- The committee considered a paper on 14th April 2005 on the Doha Development Agenda within the WTO negotiations. This paper offers an update in the light of the Hong Kong Ministerial meeting in December 2005.
- The WTO was established in 1995 and is the official body arising from the General Agreement on Tariffs and Trade (GATT). It is responsible for regulating the rules of trade between the world's trading nations.
- At the WTO Ministerial Conference of 2001, in Doha, WTO member governments agreed a negotiating strategy which reflected an emphasis on trying to increase the share of global income for developing and "least developed" countries. This is known as the Doha Development Agenda.
- EU Member States are generally represented at the WTO by the European Commission, in accordance with article 133 EC Treaty. Peter Mandelson is current Commissioner for Trade.1st June 2007 is the deadline for conclusion of the Doha Development Agenda.
- Trade talks were held between 16-19 December 2005. Modest agreement was reached. Agriculture export subsidies will be abolished by 2013; they account for only 2% of total subsidies and critics call their removal "symbolic". A further plan has been agreed to grant tariff-free access to goods from the world's 49 poorest countries: combined, these countries make up less than 1% of all trade. Retrospective help has been provided for cotton farmers in West Africa.
- The large outstanding issues are agriculture, services and industrial products. In the developed countries these areas are largely protected through a combination of subsidies, tariffs and legislation. The EU agricultural regime is among the key sticking points, along with the extent to which developing countries will open their markets for industrial goods in return. A package on agriculture would require both the EU and US to cut farm subsidies significantly (Europe is already the world's largest importer of agricultural goods). An agreement on market access for industrial goods – some 70% of world trade – leading to lower tariffs and increased trade opportunities is also a priority.

### Action Point from EEAC Meetings 22 September 2005 and 18 January 2006

## Regional Aid Guidelines

- The Government has announced that it is carrying out a review of the Assisted Areas of Great Britain in response to new European Commission guidelines on regional aid.

- An open consultation began in February and seeks views on areas to be included in the future Assisted Areas Map from 2007-2013. The first stage of the consultation will end on 14th April 2006. The consultation can be accessed from the DTI's website http://www.dti.gov.uk/consultations/files/publication-1594.pdf .
- Under the new European guidelines, the proportion of the UK population covered by the Assisted Areas will be 23.9%, compared to 30.9% currently covered.

- The reduction in coverage for the UK (like other longer-standing Member States) reflects EU objectives of reducing the quantity of state aid and of EU enlargement that led to regional aid being concentrated in the new, poorer Member States. It also reflects the UK's sustained economic success in recent years.

- The following UK regions will automatically qualify for Assisted Area status under the new rules:

  Cornwall and Isles of Scilly
  West Wales and the Valleys
  Highlands and Islands

- In addition, the Government intends to continue to grant Northern Ireland's 100% discretionary coverage, due to the particular circumstances of the province.